Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Taith tuag at

Gymru Gydnerth

1: **Bioamrywiaeth a Phridd:** Cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli tir yn briodol i greu ecosystemau gweithredol iach

2: **Mannau Gwyrdd Naturiol:** Cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol a llesiant cymunedol

3: **Gwybodaeth o Natur:** Cynyddu ymwybyddiaeth o bwsigrwydd amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iachach gweithredol naturiol

4: **Dŵr ac Ansawdd Aer:** Cynorthwyo cydnerthedd ecolegol gan wneud amgylchedd iachach ar gyfer bywyd gwyllt a phobl

5: **Defnyddio Adnoddau Naturiol:** Ymaddasu i amgylchedd sy'n newid lle mae angen defnyddio adnoddau'n effeithlon

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Taith tuag at

Gymru Gydnerth

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

"Cenedl sy'n cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach, gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid".

Diffinio'r nod

Yma yng Nghymru, rydyn ni yn awr ymhlith y gwledydd mwyaf diffygiol mewn natur yn y byd, gyda 1 o bob 14 rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu.

Mae gan Gymru hefyd beth o'r ansawdd aer gwaethaf yn y DG, yn dal i allyrru nifer mawr o nwyon tŷ gwydr ac yn awr mewn mwy o berygl o lifogydd, erydiad pridd ac ansawdd dŵr gwaeth. Heb ecosystemau iach gweithredol, ni allwn wrthsefyll, adennill nac addasu i'r newidiadau sy'n wynebu ein planed.

Mae ein hamgylchedd naturiol yma yng Nghymru yn allweddol ar gyfer ein llesiant: mae'n darparu'r aer yr ydym yn ei anadlu, ein bwyd, 951 miliwn litr o ddŵr yfed bob dydd, ein dillad, moddion, deunyddiau fel coed, yn ogystal â mannau gwyrdd i'w mwynhau. Fodd bynnag, rydyn ni'n byw ar adeg o newid annhebyg i unrhyw beth a welwyd cyn hyn yng nghyd-destun ein planed. Mae bioamrywiaeth, 'amrywiaeth holl fywyd ar y ddaear' wedi gweld gostyngiad cyffredinol o 60% mewn rhywogaethau ar draws y byd ers 1970.
Nod Cymru gydnerth yw gwyrdroi'r dirywiad yn ein hamgylchedd naturiol bioamrywiol, i ddatblygu gwell ymwybyddiaeth o'n heffaith fel unigolion a sefydliadau, sicrhau ein bod yn ecolegol gydnerth gydag ecosystemau iach, ac yn cynorthwyo llesiant cymunedol.

Ee

Astudiaethau achos
Trwy'r ddogfen hon fe welwch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.

Emma Bradshaw

HOME

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn cyflwyno **Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)** yn nodi ymagwedd tuag at gynllunio a rheoli adnoddau naturiol i sicrhau bod y manteision a ddarperir ganddynt ar gyfer ein llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gael yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae **polisi Adnoddau Naturiol** yn nodi blaenoraethiau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol i ni i gyd gyfrannu tuag atynt.

Mae'r blaenoriaethau'n ymwneud â phrif-ffrydio gweithgaredd ar gyfer bioamrywiaeth ar draws ein hardaloedd trefol a gwledig a lleihau'r pwysau ar ein hadnoddau naturiol. Bydd **datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru'n** cael eu datblygu erbyn 2020. Byddant yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol mewn lle, a bydd yn offeryn gwerthfawr ar gyfer cynorthwyo cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n gweithredu'n lleol.

Bydd datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru'n cael eu datblygu erbyn 2020. Byddant yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol mewn lle, a byddant yn offeryn gwerthfawr ar gyfer cynorthwyo cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n gweithredu'n lleol.

Cyflwynodd Adran 6 o dan Rhan I ddyletswydd ecosytemau bioamrywiaeth a chydnerthedd (dyletswydd S6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (sy'n cynnwys cyrff cyhoeddus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) wrth iddynt ymarfer eu gweithgareddau mewn perthynas â Chymru. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion yng Nghanllaw Hanfodion Llywodraeth Cyrmu.

Mae'r Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn gosod y sail ar gyfer testiolaeth cenedlaetholar ar gydnerthedd ecosystemau yng Nghymru fel y gallwn ddeall i ba raddau y mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei gyflawni. Y blociau adeiladu cydnerthedd ecolegol yn Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd a Hyblygrwydd

Mae **Polisi Cynllunio Cymru'n** gwneud cyfraniad arwyddocaol i welliant llesiant yn ei holl agweddau ac yn sefydlu ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy ein symud tuag at gymdeithas garbon isel, gydnerth ag amgylcheddau â chysylltedd da ar gyfer pawb yng Nghymru. Gall y system gynllunio gyfrannu tuag at wella cydnerthedd ecosystemau a rhwydweithiau ecolegol, gan atal a gwyrdroi colli bioamrywiaeth, cynnal a gwella seilwaith gwyrdd, sicrhau dewisiadau cydnerth ar gyfer seilwaith a'r amgylchedd adeiledig, gan symud tuag at economi mwy cylchol yng Nghymru; a hwyluso datgarboneiddio

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf

St

Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisïau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'Ad'

Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn fwy tebygol o ddigwydd pan

- **Gweithredu'n ddigon cyflym i ymladd colli bioamrywiaeth.**
- **Digwyddiadau ac ymgyrchoedd yn cynyddu ymwybyddiaeth (e.e. 'Blue Planet 2') a fedr ddwyn y pwnc i'r 'bwrdd gwleidyddol'.**
- **Pan gydnabyddir bod Seilwaith Gwyrdd yn ddull effeithiol y gellir ei gyflwyno i liniaru nifer o heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.**
- **Sefydliadau (yn cynnwys busnes) yn deall ac yn gweithio i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), SMNR, adroddiad SoNaRR, Polisi Adnoddau Naturiol a Pholisi Cynllunio Cymru.**
- **Sefydliadau cymunedol yn cael eu galluogi i sbarduno newid yn eu hardal i sicrhau bod natur yn rhywbeth y gellir ei gyrchu a'i werthfawrogi gan bawb.**

HOME

Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn llai tebygol o ddigwydd pan

- **Grantiau amgylcheddol yn llai ac yn rhwystrol ac am dymor byr yn unig.**
- **Twf economaidd, yn cynnwys swyddi a busnes, yn cael blaenoriaeth dros yr amgylchedd naturiol, gyda niwed amgylcheddol yn cael ei gyfaddawdu er mwyn twf yn y tymor byr.**
- **Methiant i gynllunio, dylunio a rheoli seilwaith gwyrdd yn digwydd o'r cychwyn cyntaf mewn rhaglenni a phrosiectau.**
- **Ffocws ar wastraff, trafnidiaeth ac ynni, i ffwrdd oddi wrth yr amgylchedd naturiol.**
- **Diffyg gwybodaeth - seilwaith gwyrdd yn cael ei weld fel rôl adran yr amgylchedd.**

HOME

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Taith tuag at

Gymru Gydnerth

2: Mannau Gwyrdd Naturiol

Cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol a llesiant cymunedol

Diffinio'r mater

Mae gwella mynediad i seilwaith a mannau gwyrdd yn cyfrannu at fwy o weithgaredd corfforol (yn arbennig ymhlith plant) Gwell llesiant iechyd meddwl, llai o ddinoethiad i beryglon amgylcheddol a llygredd aer, aer o well ansawdd, a chynnydd mewn cyfranogiad cymdeithasol ymhlith oedolion hŷn, tra'n lleihau effaith y newid yn yr hinsawdd, gan roi amddiffyniad yn erbyn llifogydd ac erydu. Mae enghreifftiau wedi dangos bod pobl sy'n byw o fewn 500 metr i fan gwyrdd hygyrch 24% yn fwy tebygol o gyflawni 30 munud o ymarfer corff.

Mae amrywiaeth o goed mewn strydoedd, gerddi, toeau gwyrdd, coedwigoedd cymunedol, parciau, afonydd, camlesi a gwlyptiroedd yn darparu ystod eang o fanteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol profedig a chost effeithiol ac yn darparu ystod enfawr o gynnyrch a gwasanaethau sy'n werth llawer £bn i'r economi. Hefyd, mwya'i gyd yw ehangder y cynefin neu'r rhywogaethau, mwy'i gyd fyddant yn medru cynorthwyo cynnydd ym mhoblogaeth rhywogaethau, ac fel canlyniad, fod yn fwy cydnerth wrth wynebu newid.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill

Taith at Ymgyfraniad
Pwnc 1: Diwylliant ymgyfraniad sefydliadol

Taith tuag at Gymru o Gymunedau cydlynus
Pwnc 1: Pobl weithgar yn eu cymunedau

HOME

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Gwneud **Newidiadau** Syml

Mapio tir sy'n eiddo i chi neu yr ydych yn gweithio ynddo i adnabod a thynnu sylw at dir sy'n hygyrch i holl grwpiau cymunedol i greu cysylltedd rhwng cynefinoedd. Bod yn agored i gychwyn sgyrsiau gydag aelodau cymunedau a sefydliadau am sut i ddefnyddio'r mannau hyn.

Ee

E.e. Mae **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** wedi cychwyn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, gan edrych ar welliannau i fannau gwyrdd ar diroedd ysbytai, mapio asedau tir cyhoeddus sy'n agos at seilwaith Hywel Dda a macsimeiddio'r defnydd o fannau gwyrdd.

Darparu a gwella mannau tyfu i gymunedau fel y gall trigolion fedru tyfu bwyd (mewn ffordd sydd hefyd yn cynorthwyo bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol) yn arbennig fannau agored mewn datblygiadau newydd.

Ee

E.e. mae gan **Abertawe** nifer o gynlluniau Tyfu Mewn Cymunedau Trefol; gweler manylion yma: https://www.swansea.gov.uk/media/7129/Introductory-Note-Urban-Growing-Edible-Land-in-Swansea-September-2014/pdf/Introductory_Note_Urban_Growing_Edible_Land_in_Swansea_September_2014_1.pdf

Creu neu dynnu sylw staff/trigolion at fannau gwyrdd lle gallant eistedd yn yr awyr agored adeg cinio, tra'n aros am apwyntiad, tra'n cynnal cyfarfodydd etc. i wella eu llesiant drwy fod yng nghanol natur.

HOME

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Gwneud **Newidiadau** Syml

Hwyluso a hybu cyfarfodydd cerdded mewn mannau gwyrdd lleol i gynorthwyo gweithgaredd corfforol a llesiant.

Cynorthwyo a hyrwyddo Cerdded/ Gweithgaredd Grwpiau yn yr awyr agored yn eich ardaloedd.

Os yr ydych yn gweithio gyda grwpiau sy'n cynnig ardaloedd chwarae, sicrhau eu bod yn cynnig cyfleoedd i dyfu bwyd sy'n cynorthwyo bywyd gwyllt yr ardal honno, ac sy'n hygyrch i bawb.

Pan fyddwch yn gweithio gydag ysgolion, eu cynorthwyo i ddatblygu Cynllun Gweithredu Bywyd Gwyllt.

Sefydlu "Grŵp Ffrindiau" ar gyfer eich ardal natur leol.

HOME

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Bod Yn Fwy **Anturus**

Gweithio gyda'ch cymuned leol, yn arbennig grwpiau heb gynrychiolaeth i ddatblygu strategaeth tyfu cymunedol i sicrhau bod gan bobl leol fynediad i lysiau a ffrwythau lleol o ansawdd da.

Ee

E.e. **Strategaethau Tyfu Bwyd** yn adnabod tir yn ardal yr Awdurdod Lleol a fedrai gael ei ddefnyddio gan y gymuned fel rhandiroedd neu ar gyfer tyfu llysiau, ffrwythau, perlysiau neu flodau, yn arbennig mewn ardaloedd o dlodi. http://www.growyourownscotland.info/food-growing-strategies/

Cynorthwyo'n rhagweithiol greadigaeth cynefinoedd newydd, megis perllannau lleol, cloddiau brodorol, meysydd blodau gwyllt neu ardaloedd eraill o fannau gwyrdd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt sy'n hygyrch i gymunedau lleol.

Ennyn ymgyfraniad grwpiau cymunedol cyn gynted â phosibl fel y gallant gyfrannu at benderfyniadau'n ymwneud â'r modd y dylid gofalu am eu mannau gwyrdd.

Creu partneriaethau gyda sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau amrywiol cymunedol i'w helpu i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol.

Creu rhwydweithiau gwyrdd neu fannau gwyrdd cysylltiedig ledled ardaloedd trefol drwy blannu coed brodorol, potiau plannu cyfeillgar i beillio & gerddi cymunedol.

Ymgysylltu'n rhagweithiol mewn modelau amgen o hybu iechyd a llesiant a fedr greu hafanau tawel, gwyrdd i bobl a bywyd gwyllt ar diroedd gofal iechyd, a darparu manteision cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol

Ee

E.e. Prosiectau Coedwigoedd y GIG **yng Ngwynedd.** https://nhsforest.org/list

HOME

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Bod Yn Fwy **Anturus**

Ee

E.e. Ein Berllan – Our Orchard yn **Ysbyty Prifysgol Llandochau** sefydlu parc iechyd ecolegol cymunedol sydd o fantais i fywyd gwyllt, planhigion a phobl.
http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/ein-berllan-our-orchard

https://youtu.be/eM7okk_IXDs

Lle'r ydych yn gweithio gyda mannau gwyrdd naturiol sy'n hygyrch i'r cyhoedd, sicrhau bod pawb yn medru eu mwynhau, drwy ddarparu seilwaith hygyrchedd digonol.

Chwarae eich rhan yn narpariaeth cyfleoedd ar gyfer chwarae anffurfiol o fewn ardaloedd preswyl, gyda mannau chwarae naturiol lle mae hynny'n bosib

Ee

E.e. Ail-ddyluniodd **Cymdeithas Dai Cartrefi Conwy** eu hystad Tre Cwm drwy greu ardaloedd cymunedol y gall eu teuluoedd eu mwynhau, gyda'r bwriad o ailgysylltu pobl ifanc sy'n byw yno â'u hamgylchedd naturiol
https://wales247.co.uk/inspirational-estate-makeover-is-an-example-to-rest-of-wales/

Pan yn gweithio gyda phobl ifanc, hybu a chreu Meysydd Chwarae Bwytadwy i ddysgu i blant sut i dyfu bwyd a'r manteision i natur a'u hiechyd.

Ee

E.e. creodd **Ysgol Hitherfield yn Llundain** Faes Chwarae Bwytadwy; mae 89% o athrawon wedi sylwi bod gan blant yn awr well dealltwriaeth o ble mae bwyd yn dod.
https://www.treesforcities.org/our-work/edible-playgrounds

Yn ystod ailwampio of your nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau mewn bioamrywiaeth, ffynonellau ynni adnewyddol a deunydd wedi ei ailgylchu

HOME

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Perchnogi Eich **Uchelgais**

Gweithredu ar y cyd neu'n genedlaethol

St

Ennyn ymgyfraniad unigolion, grwpiau a chymunedau mewn dylunio a darparu ymyriadau sy'n annog mynediad i, a defnydd cynaliadwy o'r mannau sydd ar gael drwy'r cwrs bywyd gan sicrhau cynrychiolaeth o du'r amrywiaeth o bobl a effeithir arnynt gan y penderfyniadau.

Ee

E.e. **Prosiect Skyline** mewn astudiaeth ymarferoldeb sy'n edrych ar y posibilrwydd o gymunedau'n rheoli'r dirwedd sy'n amgylchynu'u tref neu bentref. https://skyline.wales/about

St

Drwy bolisi cynllunio, mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol, Canllaw Cynllunio Atodol a chynlluniau datblygu (tai, manwerthu, masnach a'r sector cyhoeddus) i ddarparu seilwaith gwyrdd a digon o fannau gwyrdd/glas hygyrch (fel y presgreibiwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru)

Ee

E.e. Canllaw Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur. **Rhondda Cynon Taf** e.e. https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/PlanningandBuildingControlLocalDevelopmentPlans/RelateddocumentsSupplimentaryplanningGuidanc/NatureConservationSPG.pdf

St

Elfennau Seilwaith Gwyrdd yn cael eu cadw, eu hôl-osod, a'u dylunio o fewn datblygiadau tai wedi eu hadfywio, llwybrau trafnidiaeth, sefydliadau gofal iechyd ac addysg.

Ee

E.e. **Datblygiad Tai Kidbrooke, Llundain:** 4,800 o dai newydd a 35 hectar o fannau agored amrywiol lled-naturiol i'r bobl sy'n byw yno. https://www.wildlifetrusts.org/housing-and-wildlife-examples Organisational actions

HOME

Perchnogi Eich **Uchelgais**

Gweithredu sefydliadol

Mae **gan eich sefydliad** adnoddau /aelod staff ymroddedig i gynorthwyo ymgyfraniad effeithiol pobl a chymunedau mewn penderfyniadau am fannau naturiol.

Glynu wrth Leoedd Gwyrdd Naturiol Croesawgar ac annog pawb yr ydych yn cydweithio gyda nhw i wneud yr un fath.

Sefydlu canlyniadau a rennir gyda sefydliadau iechyd yn cynnwys drwy archwilio dewisiadau ataliol a chreu cronfeydd cyllid i fuddsoddi mewn ehangu gweithgareddau awyr agored.

Integreiddio ystyriaethau amgylcheddol ym mhob penderfyniad am ddefnydd tir o'r cychwyn cyntaf.

HOME

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Enghreifftiau eraill ac adnoddau

Strategaeth Mannau Agored **Merthyr Tudful**

https://www.merthyr.gov.uk/media/4039/20-mtcbc-open-space-strategy-june-2016.pdf

Mae plant sy'n byw o gwmpas mannau gwyrdd yn cael hwb iechyd meddwl nes ymlaen mewn bywyd

https://newstartmag.co.uk/articles/children-living-around-green-spaces-get-mental-health-boost-later-in-life/

Astudiaeth newydd yn amlygu effaith cadarnhaol rhandiroedd a gerddi ar beillwyr yn y ddinas

https://www.theguardian.com/environment/2019/jan/14/city-bees-allotments-gardens-help-arrest-decline-study

Prosiect 'Allan â ni!" **Cyfoeth Naturiol Cymru** Gweithgaredd yn yr awyr agored sydd wedi profi i fod yn fanteisiol i iechyd meddyliol a chorfforol, hyder, hunanbarch a chyflogadwyedd.

https://naturalresources.wales/about-us/our-projects/recreation-and-community-projects/come-outside/?lang=cy

Canolfan Plant Mountain View **Cyngor Dinas Abertawe;** rhieni'n tyfu llysiau yn yr ardd.

Gwella Mynediad Plant i Natur wrth Fynd i'r Afael ag anghydraddoldeb ymhlith pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) o gefndiroedd incwm isel.

https://www.theguardian.com/teacher-network/2018/mar/01/improving-childrens-access-nature-addressing-inequality-bame-low-income-backgrounds

HOME

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Enghreifftiau eraill ac adnoddau

Safonau Mannau Gleision Cyfoeth Naturiol Cymru
https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/green-spaces/local-green-spaces/?lang=cy

Fields in Trust/Meysydd Chwarae Cymru - Ail-werthuso Parciau a Mannau Gwyrdd: mesur gwerth economaidd a llesiant i unigolion

http://www.fieldsintrust.org/Upload/file/research/Revaluing-Parks-and-Green-Spaces-Report.pdf

HOME